**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**13 RHAGFYR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau 13 Rhagfyr 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bob Connah, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Michelle Perfect, Vicky Perfect ac Andy Williams

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd: David Cox (yn lle Mike Lowe)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Hilary McGuill ac Arnold Woolley

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Cyllid; Prif Weithredwr; a'r Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol – ar gyfer cofnod rhif 68 a 69
Rheolwr Cyllid Corfforaethol – ar gyfer cofnod rhif 70 a 71
Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol – ar gyfer cofnod rhif 72

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 63. SYLWADAU AGORIADOL

Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i anfon cofion cynnes am wellhad buan at y Cynghorydd Bateman, ar ran y Pwyllgor.

## 64. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 65. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 66. OLRHAIN GWEITHRED

Wrth gyflwyno'r adroddiad cynnydd ar gamau gweithredu yn codi o gyfarfodydd blaenorol, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r ddau gam ar eitem Cynllun y Cyngor o gyfarfod mis Medi yn cael eu datrys yn y cyfarfod nesaf fis Ionawr. Yr amrywiaeth llawn o fesuryddion

perfformiad ar gyfer Trosolwg a Chraffu a'r darlun o'r cylch cynllunio ar gyfer cynllunio ariannol, busnes a pherfformiad oedd y rhain.

Cytunodd y Cynghorydd Jones y gellid dileu'r cam gweithredu oedd heb ei gyflawni ar adroddiad diwedd blwyddyn Cynllun y Cyngor, gan fod gwaith yn cychwyn ar Gynllun y Cyngor 2019/20.

Ar gamau gweithredu heb eu cyflawni o fis Gorffennaf a Medi, gofynnodd y Prif Weithredwr i Aelodau aros am fanylion Setliad Terfynol Llywodraeth Leol ar gydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r pwysau o ran cost ar gyfer Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir cyn penderfynu a ddylid cysylltu â Llywodraeth Cymru eto am gyllid pellach. Roedd cynllun gweithredu manwl ar ymatebion swyddogion i Aelodau – ar eu gwaith achos a chwynion – wedi ei rannu gydag Arweinyddion Grŵp yn dilyn Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor, cyn cyflwyno adroddiad llawn i'r Pwyllgor fis Ionawr.

Gofynnodd y Cynghorydd Heesom pe gellid rhannu adroddiadau pellach ar Bont Sir y Fflint. Amlygodd bwysigrwydd integreiddio cludiant strategol er mwyn cefnogi'r Cais Twf rhanbarthol a'r angen i hyn gael ei adlewyrchu yn adran Cyngor Uchelgeisiol Cynllun y Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr nad y Cyngor sy'n gyfrifol am bolisi Llywodraeth Cymru ar lwybrau cludiant a bod penderfyniadau cyllido gan Lywodraeth Cymru y tu allan i'r Cais Twf. Byddai'n sefydlu amseru yr adroddiad cylchol nesaf ar y bont a'i rannu maes o law.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at yr adroddiad ar Metro Gogledd Ddwyrain Cymru oedd yn gysylltiedig â datrysiad trafnidiaeth integredig y Cyngor ac roedd wedi ei ohirio o gyfarfod diweddar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylcheddol. Byddai ystyried yr eitem honno fis Ionawr yn rhoi cyfle i Aelodau rannu unrhyw bryderon gyda chynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 67. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried. Cytunwyd ar y newidiadau canlynol:

- Gwybodaeth perfformiad ac eitem eglurhaol ar y cylch cynllunio perfformiad, busnes ac ariannol (yr holwyd amdano yng nghyfarfod mis Medi) i'w ddwyn i gyfarfod mis Ionawr.

- Papur ymgynghori ar ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i'w drefnu ar gyfer mis Ionawr.

- Adroddiad ar ymdrin â chwynion Aelodau i'w ystyried ym mis Chwefror wedi'r gweithdy Aelodau sydd wedi ei drefnu ar gyfer 23 Ionawr.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 68. ADRODDIAD MONITRO CANOL BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad cynnydd canol blwyddyn ar berfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018/19. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr ychydig feysydd lle bu tan berfformio. Roedd adroddiad cryno lefel uchel wedi ei ystyried yn y cyfarfod blaenorol cyn cael yr adroddiad llawn hwn.

Wedi cwestiwn gan y Cynghorydd Jones ar y fenter 'micro-ofal', rhannwyd gwybodaeth ar gynlluniau i ddatblygu modelau mentrau cymunedol er mwyn cryfhau gwytnwch yn y sector gofal cymdeithasol. Rhoddwyd eglurhad hefyd ar gymorth i leihau tariffau ynni a ddarperir drwy raglen yn seiliedig ar ardal er mwyn targedu ardaloedd penodol o amddifadedd.

Ar y canran o aelwydydd sydd wedi eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref, cytunodd swyddogion y byddai'r nifer o achosion yn cael eu dangos yn adroddiadau'r dyfodol er mwyn rhoi'r darlun llawn.

Mewn ymateb i sylwadau ar flaenoriaethau'r Cyngor sy'n Gwasanaethau, cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i gylchredeg gwybodaeth gryno ar oedran a gwerth yr hen ddyled sy'n daladwy i'r Cyngor, yn ogystal ag eglurhad o'r broses. Darparodd ddiweddariad bras hefyd ar ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn annog dileu'r cap ar fenthyca i gefnogi Tai Cyngor.

Dywedodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol bod peth data'n absennol ar gyfer dangosyddion perfformiad Addysg oherwydd amseru y flwyddyn academaidd, ac na ellid asesu paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd hyd nes byddai canllawiau newydd ar gael.

Wrth amlygu'r angen am drafodaeth bellach ar Gynllun y Cyngor, ategodd y Cynghorydd Heesom ei bryderon am feysydd risg ar y flaenoriaeth Cyngor Uchelgeisiol, a'r manteision i'r Sir i gyd. Mewn ymateb i'r sylwadau ar y rhwydwaith trafnidiaeth integredig, dywedodd y Cynghorydd Shotton y dylid cydnabod y llwyddiant o ran diogelu buddsoddiad yn lleol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr eglurdeb ar gynnwys yr adroddiad sydd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf fel y nodir yn yr argymhellion, er mwyn rheoli disgwyliadau. Atgoffodd bawb o'r gofynion statudol ar gyfer y Cynllun a dywedodd bod gwaith ar Gynllun y Cyngor ar gyfer 2019/20 i fod i gychwyn yn y Flwyddyn Newydd gyda'r bwriad o fabwysiadu'r cynllun erbyn Mehefin 2019.

Mynegodd y Cynghorydd Johnson ei bryderon am effaith Brexit ar yr economi lleol, yr oedd yn teimlo y dylid ei nodi fel risg strategol. Cyfeiriodd y Prif

Weithredwr at y daflen gynghorol a gylchredwyd i'r Cyngor Sir ym mis Hydref oedd yn amlinellu amrywio rolau unrhyw gyngor wrth reoli trawsnewid drwy Brexit. Rhoddodd enghreifftiau o waith asesu risg cenedlaethol a rhanbarthol a dywedodd y byddai'n haws deall risgiau rhanbarthol a lleol yn hwyrach yn y broses.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cymeradwyo:
- lefelau cynnydd a hyder cyffredinol yng nghyflawniad gweithgareddau o fewn Cynllun y Cyngor;
- y perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor;
- y lefelau risg presennol o fewn Cynllun y Cyngor;

(b) Bod y Pwyllgor wedi eu sicrhau gan gynlluniau a chamau gweithredu i reoli'r broses o ddarparu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018/19; a

(c) Bod adroddiad pellach yn cael ei dderbyn fis Ionawr gyda darlun o'r cylch cynllunio ar gyfer cynllunio ariannol, busnes a pherfformiad, a gwybodaeth ar yr amrywiaeth o wybodaeth perfformio sydd ar gael lle gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu dynnu ohonynt er mwyn adrodd am berfformiad.

## 69. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR Y FFLINT: CYNLLUN LLES AR GYFER SIR Y FFLINT 2017–2023 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wedi mabwysiadu'r Cynllun Lles, oedd wedi rhagnodi pum maes blaenoriaeth.

Siaradodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol am y brwdfrydedd a'r gwaith partneriaeth cryf ar draws y Bwrdd gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cyflawni amcanion strategol. Tra bo'r asiantaethau i gyd yn cyfrannu at y gwaith ar y pum blaenoriaeth, roedd partneriaid arweiniol yn rhannu gwybodaeth a dysgu yn effeithiol.

Mynegodd y Cynghorydd Jones bryderon ar y penderfyniad i atal y flaenoriaeth Economi a Sgiliau am y flwyddyn gyntaf, yn enwedig o ystyried perfformiad uchel y Cyngor ar economi. Eglurodd Swyddogion bod y penderfyniad i ganolbwyntio ar bedwar o'r pum thema yn rhannol oherwydd capasiti'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac hefyd i gyflawni eglurder ynglŷn â lle gellid ychwanegu gwerth. Byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dychwelyd at gynllunio gweithredu lleol ar y thema Economi a Sgiliau gan nodi bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a'r cyn Fwrdd Gwasanaethau Lleol) wedi cwblhau gwaith ar flaenoriaethau ar gyngor ariannol a thlodi, a hyrwyddo mynediad at waith a phrentisiaethau yn y gorffennol.

Mynegodd y Cynghorydd Johnson ei werthfawrogiad i swyddogion am y rhaglen cyd-nerthu cymunedol barhaus yn Holway oedd yn gwneud gwir wahaniaeth. Siaradodd hefyd am werth y prosiect 'Can Cook' a'r Clwb Brecwast yn yr ardal. Dywedodd y Prif Weithredwr bod hyn yn enghraifft gadarnhaol o waith aml asiantaeth dan arweinyddiaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a

siaradodd am gynlluniau i ddatblygu model menter gymdeithasol lleol i fynd i'r afael â thlodi bwyd tra'n cynnig buddion cyflogaeth a chymunedol lleol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Aelodau'n cael sicrwydd ar lefel y cynnydd y mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wedi'i wneud hyd yn hyn.

## 70. CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2019/20 – RHAGOLWG WEDI'I DIWEDDARU A PHROSES AR GYFER CAM 3 GOSOD Y GYLLIDEB

Cyflwynodd y Prif Weithredwr eitem i adolygu sefyllfa gyfredol y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn dilyn cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru a'r adroddiad i'r Cyngor Sir ar 11 Rhagfyr 2018, a chyn Setliad Terfynol Llywodraeth Leol ar 19 Rhagfyr. Wrth ddynesu at Gam 3 y broses, roedd cyfle i'r Pwyllgor ddwyn ymlaen unrhyw opsiynau pellach i helpu i bontio'r bwlch cyllidol oedd ar ôl ar gyfer 2019/20 i'w argymell yn y Cabinet a chyn i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r gyllideb derfynol ym mis Ionawr 2019. Ar ôl cytuno ar ddatrysiadau cyllidol Camau 1 a 2, doedd dim cynigion ar ôl i'w rhannu ag Aelodau os nad oedd swyddogion yn cael eu comisiynu i wneud hynny gan y Cabinet ar gyngor y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

I gynorthwyo, ail gylchredwyd y sleidiau cyflwyno a'r wybodaeth a rannwyd yng nghyfarfod y Cyngor Sir, yn amlygu'r ymgyrch #BacktheAsk am well Setliad. Mewn ymateb i geisiadau blaenorol, rhannwyd nodiadau briffio ar arian wrth gefn a balansau, a benthyciadau drwy'r Cyfrif Buddsoddi a Benthyciadau Corfforaethol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at bryderon ymysg Aelodau am y cynnydd posib yn Nhreth y Cyngor, ac amlygodd y Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a Strydwedd fel dau faes o orwariant parhaus o un flwyddyn i'r llall. Dywedodd bod problemau penodol yn effeithio gwasanaethau anstatudol oedd wedi cael eu gosod o'r neilltu yn ystod y broses gyllido gan eu bod yn cael eu hystyried yn annerbyniol ar y cam hwn. Yn absenoldeb unrhyw ddatrysiadau pellach ac ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru ar gyllid canlyniadol, dywedodd bod angen cyngor gan Weinyddiaeth y Cyngor ar adolygu dewisiadau gwasanaeth, cyn y Setliad Terfynol, er mwyn deall goblygiadau a dewisiadau amgen i godiad pellach yn Nhreth y Cyngor.

Enwodd y Prif Weithredwr Strydwedd fel un o'r portffolios oedd yn cael ei yrru fwyaf gan effeithlonrwydd, a dyletswydd gofal y Cyngor o ran Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir. Tra bo rhai gwasanaethau yn statudol, roedd risgiau sefydliadol hefyd ar wasanaethau anstatudol. Wedi ystyried a chynnal asesiadau risg ar bob dewis diogel oedd ar gael gan Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet yn ystod y broses gyllido, dim ond oes oedd sicrwydd ar effaith ar y gyllideb a'r ddarpariaeth yn unol â'r drefn briodol y gellid ystyried unrhyw gynigion newydd ar y cam hwn. Hyd nes roedd eglurder ar y Setliad Terfynol, yr unig opsiynau sydd ar gael i gyflawni cyllideb gytbwys – ar wahân i Setliad gwell gan Lywodraeth Cymru – oedd cynnydd mewn Treth y Cyngor, a defnydd cyfyngedig o arian wrth gefn a balansau ar gyngor proffesiynol y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yn ei gapasiti fel Swyddog Adran 151.

Ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod lefel is o risg ariannol nag oedd ar y cam gosod y gyllideb ar gyfer 2018/19, gan bod amcanestyniadau costau wedi eu hadeiladu yn llawn i'r rhagolygon ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar weithgarwch presennol, er gwaethaf pa mor anwadal y galw am wasanaethau.

Wedi ymholiad gan y Cadeirydd, rhoddwyd eglurhad ar ad-daliad dyledion hir dymor (y mae rhai yn dyddio yn ôl i gyn awdurdodau) fel yr adlewyrchir yn adroddiadau Rheoli Trysorlys. Dywedodd y Prif Weithredwr bod ymrwymiadau gwariant ar raglenni cyfalaf yn y dyfodol yn adlewyrchu buddion, gwerth am arian a'r arbedion refeniw er mwyn rhoi sicrwydd i Aelodau.

Ar sylwadau'r Cynghorydd Jones, rhannodd y Cynghorydd Shotton bryderon am y penderfyniad posib ar Dreth y Cyngor a fyddai'n aros os na fyddai Llywodraeth Cymru yn newid eu safle. Roedd datganiadau cadernid ar gyfer yr holl gynigion arbedion effeithlonrwydd ar draws meysydd gwasanaethau wedi eu hystyried gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, oedd oll wedi dod i ganlyniad nad oedd datrysiadau newydd i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ar y raddfa angenrheidiol. Tra roedd rhai mân ddewisiadau wedi eu nodi yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Cyngor a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (a drafodwyd yng nghyfarfod mis Hydref), y byddai angen datblygu rhai ohonynt dros amser, er enghraifft Cludiant Ôl-16, roedd adroddiad arno i'w ystyried yn fuan gan y Cabinet. Awgrymodd y Cynghorydd Shotton bod Aelodau yn aros nes clywed y Setliad Terfynol cyn ystyried y camau nesaf gan taw'r unig opsiwn cyfreithiol ar ôl oedd cynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Jones bod angen gwneud cyfrifiad cyn y Setliad Terfynol, fel dewis amgen ymarferol i ddangos goblygiadau dewisiadau anstatudol pellach pe byddai Aelodau yn dewis peidio cefnogi'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Siaradodd y Prif Weithredwr am bwysigrwydd caniatáu digon o amser ar gyfer y drefn briodol fel rhan o'r broses gosod y gyllideb, gan gynnwys penderfyniadau democrataidd gan Aelodau wedi derbyn cyngor gan swyddogion. Yn ogystal â thynnu sylw at ddyletswyddau statudol y Cyngor, rhoddodd enghreifftiau o oblygiadau cost o gyflwyno newidiadau sylweddol i wasanaethau anstatudol.

Cytunodd y Prif Weithredwr i gais gan y Cynghorydd Jones am ddadansoddiad mwy manwl ar Gyllid Corfforaethol a Chanolog yn y cyfarfod ym mis Ionawr.

**PENDERFYNWYD:**

Mai'r unig feysydd pryder y mae'r Pwyllgor am i'r Cabinet eu hadolygu yw cyllidebau Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a Strydwedd.

## 71. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2018/19 (MIS 7)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw fel yr oedd ym Mis 7 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cabinet ei ystyried ar 18 Rhagfyr 2018..

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y diffyg gweithredol wedi cynyddu o £0.103 miliwn i £0.325 miliwn. Roedd y prif newidiadau'n ymwneud â Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, cyfraniad incwm y Bwrdd Iechyd ac effaith cofrestru'n awtomatig ar gyfer y Gronfa Bensiynau.

Amcangyfrifwyd y byddai 97% o arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

Yr amcangyfrif balans diwedd blwyddyn ar Gronfeydd wrth gefn Arian at Raid oedd £5.447 miliwn, ar ôl cytuno i ddefnyddio £1.900 miliwn i gau'r bwlch yn y gyllideb fel y cytunwyd fel rhan o ddatrysiadau cyllideb Cam 1. Roedd crynodeb o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn dangos gostyngiad parhau gydag amcangyfrif diwedd blwyddyn o £11.096 miliwn.

Nid oedd newid yn yr HRA lle y rhagwelwyd y byddai'r gwariant o fewn y flwyddyn yn £0.067 miliwn yn is na'r gyllideb, gan adael balans diwedd blwyddyn o £1.165 miliwn.

Yn dilyn trafodaeth ar yr eitem flaenorol, cynigiodd y Cynghorydd Jones bod y cyllidebau ar gyfer Strydwedd a Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn cael eu hamlygu i'r Cabinet fel dau faes pryder ar gyfer adolygu parhaol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Cabinet ar gyfer 18 Rhagfyr ar Fonitro'r Gyllideb Refeniw 2018/19 (Mis 7) ac yn cadarnhau mai'r meysydd pryder yr hoffent i'r Cabinet eu hadolygu yw cyllidebau Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a Strydwedd.

## 72. ADRODDIAD GWYBODAETH AM Y GWEITHLU – CHWARTER 2 2018/19

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer Chwarter 2 2018/19.

Roedd newidiadau mewn ffigyrau cyfrif pennau yn bennaf oherwydd grŵp o weithwyr chwarae a benodwyd ar gontractau tymor byr yn ystod yr haf. Roedd dirywiad mewn niferoedd presenoldeb ar gyfer yr un cyfnod yn 2017/18 ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddeall y rheswm ar gyfer y newid yn Chwarter 1.

Disgwylid y byddai'r sefyllfa well o ran defnyddio gweithwyr asiantaeth yn parhau wedi penodi swyddi Strydwedd parhaol yn gynnar yn y flwyddyn newydd a datrys tri contract hir dymor.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Johnson, roedd rheolwyr yn ymwybodol bod arferion gweithwyr o ddefnyddio gwyliau blynyddol fel absenoldeb salwch yn annerbyniol am nifer o resymau.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr eglurder i'r Cynghorydd Jones ar y cyfnod rhybudd ar gyfer athrawon oedd yn effeithio ar y nifer o rai oedd yn gadael yn wirfoddol yn yr adroddiad. Ar newidiadau disgwyliedig i'r ffigyrau cyfrif pennau ar

gyfer ysgolion, cyfeiriwyd at yr angen i ddatblygu model tâl newydd gan gydnabod yr heriau ariannol a wynebir gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu ar gyfer Chwarter 2, 2018/19 hyd 30 Mehefin 2018.

## 73. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.10pm)

…………………………

**Y Cadeirydd**